

Teitl: Title:	Babanod/Plant yn cysgu - Meithrinfa Toybox
Fersiwn: Version	1
I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol? Who does this Policy Relate to?	Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion) Myfyrwyr, staff meithrinfa, rhieni a phlant

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	Asesiad effaith / Impact assessment
<i>Effaith ar y Gymraeg</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.</i>

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

Perchennog y Ddogfen: Document Owner:	Rheolwr y Feithrinfa /Nursery Manager		
Ymgynghoriad/ Consultation:	Rhestrwch nhw / Please list Staff y Feithrinfa		
Dyddiad Cymeradwyo / Date Approved	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group		Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:		22/01/2025
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	Os yn berthnasol / If applicable
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	Os yn berthnasol / If applicable
		Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	Os yn berthnasol / If applicable
	Corff Llywodraethu / Governing Body:		Os yn berthnasol / If applicable
Dyddiad Adolygu: Review Date:	31/01/2028		

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Ffurflen Cais Cyfieithu](#)
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form](#)

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

Babanod/Plant yn Cysgu

Mae babanod a phlant bach yn cael cyfle i gysgu mewn crud, coets cadair, cadair siglo neu gadair ymlacio. Rhaid gwirio pob babi a phlentyn sy'n iau na 2 oed bob 10 munud.

Ym Meithrinfa Toybox, ein nod yw sicrhau bod plant yn cael digon o gwsg i gynorthwyo eu datblygiad a'u rhythmau cwsgr naturiol mewn amgylchedd diogel.

Mae diogelwch babanod sy'n cysgu yn hollbwysig. Rydym yn mabwysiadu polisi ymarfer a argymhellir gan The Cot Death Society i leihau'r risg o Farwolaeth Sydyn Babanod. Mae'r rhain yn cynnwys:

- 1.1 Rhoddir babanod ar eu cefnau i gysgu, ond pan mae babanod yn troi'n rhwydd oddi ar eu cefn ar eu stumog, gellir caniatáu iddynt fabwysiadu pa bynnag ystum y mae'n well ganddynt gysgu
- 1.2 Ni fydd babanod/plant bach byth yn cael eu rhoi i gysgu gyda photel i hunan-fwydo
- 1.3 Bydd babanod/plant bach yn cael eu monitro yn weledol pan fyddant yn cysgu. Cofnodir gwiriadau bob 10 munud ac ni fydd babanod byth yn cael eu gadael mewn ystafell gysgu ar wahân heb oruchwyliaeth staff
- 1.4 Wrth fonitro, bydd yr aelod o staff yn chwilio am y frest yn codi ac yn syrthio ac a yw'r ystum cysgu wedi newid
- 1.5 Fel arfer dda, efallai byddwn yn cynyddu'r monitro babi dan 6 mis oed neu fabi newydd sy'n cysgu yn ystod yr ychydig wythnosau cyntaf, e.e. bob 5 munud. Mae hyn nes bod staff yn dod yn fwy cyfarwydd â'r plentyn ac arferion cysgu ac i gynnig sicrwydd iddyn nhw a'u teuluoedd.

Rydym yn darparu amgylchedd cysgu diogel trwy wneud y canlynol:

- 1.6 Monitro tymheredd yr ystafell
- 1.7 Defnyddio blancedi/dillad gwely ysgafn, glân, a sicrhau bod babanod wedi gwisgo'n briodol i gysgu er mwyn osgoi gorboethi
- 1.8 Dim ond cael cotiau a gymeradwywyd yn ddiogel neu gyfarpar cysgu addas arall (h.y. podiau neu fatiau) sy'n cydymffurfio â rheoliadau Safon Prydain, a gorchuddion matres a ddefnyddir ar y cyd â chynfas lân wedi'i ffitio
- 1.9 Peidio â defnyddio bariau taro na gwneud cot yn anniben gyda theganau meddal, er y rhoddir cysurwyr lle bo'u hangen
- 1.10 Cadw'r holl fannau o amgylch cotiau a gwelyau yn glir rhag gwrthrychau sy'n hongian h.y. cordiau crog, cortynnau llenni tywyll, bagiau llinyn tynnu
- 1.11 Sicrhau bod pob babi/plentyn bach yn cael dillad gwely glân
- 1.12 Pe bai babi yn disgyn i gysgu wrth gael ei nyrsio gan ymarferydd, bydd yn cael ei drosglwyddo i arwyneb cysgu diogel i gwblhau ei orffwys
- 1.13 Bod â pholisi dim ysmegu.
- 1.14 Llenwir taflenni arferol gyda'r rhiant a'r gweithiwr allweddol pan fyddant yn ymgartrefu yn y feithrinfa a chaiff hyn ei ddiweddarau ar gyfnodau amserol i'w hadolygu. Os oes gan fabi drefn neu sefyllfa gysgu anarferol na fyddem yn ei defnyddio yn y feithrinfa h.y. babanod yn cysgu ar eu boliau, byddwn yn egluro ein polisi i'r rhieni ac yn gofyn iddynt lofnodi ffurflen i ddweud eu bod wedi gofyn i ni gynnal dull gwahanol safle neu batrwm ar ffurflen babanod sy'n cysgu.
- 1.15 Rydym yn cydnabod gwybodaeth rhieni am eu plentyn o ran arferion cysgu a byddwn, lle bo hynny'n bosibl, yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod arferion cysgu a llesiant pob plentyn yn parhau i gael eu cyflawni. Fodd bynnag, ni fydd staff yn gorfodi plentyn i gysgu neu ei ddeffro yn groes i'w ewylllys. Hefyd ni fyddant fel arfer yn deffro plant o'u cwsgr.

1. 16 Bydd staff yn trafod unrhyw newidiadau mewn arferion cysgu ar ddiwedd y dydd ac yn rhannu arsylwadau a gwybodaeth am ymddygiad plant pan na fyddant yn cael digon o gwsg.